Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 – Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4002A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2 – ffi archwilio 18

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 19

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2023 yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Cynhaliwyd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i waddol pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r galw ychwanegol yn y system sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roedd cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau pobl Cymru yn y modd gorau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Fy nod oedd sicrhau nad oedd fy ngwaith yn rhwystro cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r heriau ôl-bandemig y maent yn eu hwynebu, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd rhywfaint o waith archwilio ar y safle lle roedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Mae cyflawni fy ngwaith o archwilio cyfrifon wedi parhau o bell yn bennaf. Diweddarwyd safonau archwilio ar gyfer archwiliadau 2022-23 a arweiniodd at rai newidiadau sylweddol yn ein dull gweithredu. Trafodwyd y newidiadau penodol yn fanwl yn fy Nghynllun Archwilio 2023. Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig i 31 Gorffennaf 2023. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 31 Gorffennaf 2023, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech gyfunol wych gan fy staff a swyddogion yr Ymddiriedolaeth.

6 Fe wnes i hefyd addasu ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Rwyf wedi gwneud sylwadau ar sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r

ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthopedig. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dwyn ynghyd ystod o fetrigau a thueddiadau i helpu i ddarlunio'r heriau y mae angen eu goresgyn yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r adroddiad briffio ar ddata yn ategu fy asesiadau o sut mae trefniadau cynllunio'r gweithlu cyrff GIG unigol yn eu helpu i fynd i'r afael yn effeithiol â heriau gweithlu'r presennol a'r dyfodol. Mae fy nhimoedd archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar drefniadau llywodraethu cyrff unigol, yn ogystal â sut maent yn ymateb i heriau a risgiau lleol penodol. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn cael ei wneud yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Ymddiriedolaeth eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

8 **Mae Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau ymgymryd â'm gwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2023.

9 **Mae Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2023 a sut y cawsant sylw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar 29 Ionawr 2024. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad) fodd bynnag, fe wnes i ddod â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio er mwyn eu gwella.

[1] Mae INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

13 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau neu nad oeddent yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra y trafodiadau ariannol yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2022-23.

14 Ni osodais unrhyw adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn eleni gan nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull gweithredu rhesymol o ran adfer ei gwasanaethau sgrinio gyda threfniadau goruchwylio da ar waith yn gyffredinol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu adfer ei rhaglen sgrinio ymlediad aortaidd yn yr abdomen (AAA) ond mae adfer rhaglenni sgrinio'r fron a sgrinio llygaid diabetig yn her barhaus. Ym mis Mehefin 2023, roedd yr ôl-groniadau bron yn 41,000 yn y rhaglenni sgrinio'r fron a thros 81,000 yn y rhaglen sgrinio llygaid diabetig.
- o safbwynt Cymru gyfan, er gwaethaf gweithlu sy'n cynyddu yn y GIG, mae swyddi gwag yn parhau mewn meysydd allweddol, lefelau uchel o salwch a throsiant staff gan arwain at orddibyniaeth ar staffio asiantaethau. Yn fwy cadarnhaol, mae GIG Cymru yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yng nghamau cynnar gwella ei dull strategol o gynllunio'r gweithlu a rhaid iddi nawr ganolbwyntio ar wella gwybodaeth am ei gweithlu a deall effaith mentrau ei gweithlu.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i sicrhau llywodraethu da, gyda dulliau cadarn ar waith i ddatblygu a monitro ei chynlluniau a rheoli ei chyllid. Mae cyfleoedd yn bodoli i wella amseroldeb cyfarfodydd pwyllgorau a chryfhau ymhellach rai o systemau corfforaethol o sicrwydd yr Ymddiriedolaeth.

16 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o arddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd cywir ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Mae fy Nghynllun Archwilio 2023 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2022-23 a manylir ar y rhain ynghyd â sut y cawsant sylw yn **Atodiad 3 Arddangosyn 4**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2022-23

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Nid oedd fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i fy archwiliad) fodd bynnag fe wnes i ddod â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar gyfer eu gwella.

21 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth eu cyfrifon drafft o fewn y terfynau amser gofynnol. Roedd y cyfrifon, a phapurau gwaith ategol, o ansawdd da, a rhoddodd swyddogion yr Ymddiriedolaeth lefel briodol o gefnogaeth ac ymgysylltiad i ni i'n galluogi i gwblhau'r archwiliad yn brydlon.

22 Rhaid i mi adrodd am faterion sy'n codi o fy ngwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio) i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy nhîm archwilio y materion hyn ar 12 Gorffennaf 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y cyfrifon, sy'n parhau heb eu cywiro. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Roedd nifer o addasiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys un camddatganiad perthnasol mewn cysylltiad â'r dosbarthiad rhwng symiau masnach taladwy nad ydynt yn rhan o'r GIG a chroniadau nad ydynt yn rhan o'r GIG, a gafodd ei gywiro ac na chawsant unrhyw effaith ar y llinell sylfaen. |
| Materion sylweddol eraill | Nid oedd unrhyw faterion sylweddol. |

23 Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth cydgrynhoi'r parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2023 a bod y ffurflen wedi ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid bod ganddi'r pwerau i dderbyn incwm ac ysgwyddo gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Ymddiriedolaeth yn meddu ar y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

25 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau neu nad oeddent yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra y trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth.

26 Ni osodais unrhyw adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon ochr yn ochr â fy marn eleni gan nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

27 Mae gennyf y pŵer i gyflwyno adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â fy marn lle rwyf eisiau amlygu materion. Pan fo'r Ymddiriedolaeth yn methu yn un o'i dyletswyddau ariannol - i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd ac i gael cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith - neu fod fy marn yn un amodol, byddaf yn cyhoeddi adroddiad o sylwedd.

28 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23, gan adrodd am warged bach o £85,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ei dyletswydd ariannol statudol i sicrhau ei bod yn mantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd 2020-23, gan adrodd am warged dair blynedd gyffredinol o £260,000. O ganlyniad, roedd fy marn yn ddiamod, felly ni chyhoeddais adroddiad o'r fath.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

29 Mae gen i ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu effeithiolrwydd dull yr Ymddiriedolaeth o adfer ei rhaglenni sgrinio ymlediad aortaidd yn yr abdomen (AAA), y fron a llygaid diabetig;
- cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dod ag ystod o fetrigau a thueddiadau at ei gilydd i helpu i ddarlunio'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw'n lleol ac yn genedlaethol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio gweithlu yr Ymddiriedolaeth;
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

30 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Trefniadau adfer sgrinio

31 Ystyriodd fy ngwaith a yw'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull gweithredu o ran adfer ei rhaglenni sgrinio AAA, y fron a llygaid diabetig. Roedd fy ngwaith yn ceisio deall a oes gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau clir a realistig, a oes ganddi drefniadau effeithiol i fonitro'r broses o gyflawni ei chynllun adfer sgrinio, ac a yw ar y trywydd iawn i adfer ei gwasanaethau sgrinio.

32 Canfûm fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull gweithredu rhesymol o ran ei gwasanaethau sgrinio gyda threfniadau goruchwylio da ar waith yn gyffredinol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu adfer ei rhaglen sgrinio AAA, ond mae adfer rhaglenni sgrinio'r fron a llygaid diabetig yn her barhaus. Ym mis Mehefin 2023, roedd yr ôl-groniadau[2] bron yn 41,000 yn y rhaglenni sgrinio'r fron a thros 81,000 yn y rhaglen sgrinio llygaid diabetig.

33 Roedd gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth glir o'r heriau sy'n wynebu ei rhaglenni sgrinio, ac mae cynllun adfer clir ar waith gyda chamau gweithredu ac amserlenni sy'n cynyddu'r capasiti presennol yn ogystal â thrawsnewid gwasanaethau. Er bod dull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio adfer yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o gapasiti clinig a staff presennol, roedd yn llai eglur ynghylch y

[2] Mae'r ôl-groniadau yn cael eu diffinio fel pobl nad oeddent wedi cael eu gwahodd i gael eu sgrinio o fewn 36 mis ac un diwrnod ar gyfer sgrinio'r fron ac o fewn 12 mis ac un diwrnod ar gyfer sgrinio llygaid diabetig.

capasiti ychwanegol sydd ei angen i adfer gwasanaethau a'i effaith ar amserlenni. Roedd gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau ariannol clir a manwl i gefnogi ei chynllun adfer, gyda chefnogaeth cyllid Llywodraeth Cymru, er bod ei chyllideb sgrinio ar gyfer 2022-23 wedi'i gorwario ar ddiwedd y flwyddyn, ac nid yw cyllid ychwanegol ar gyfer 2023-24 wedi'i gadarnhau eto. Gweithiodd staff yn galed i gynnal parhad busnes a datblygu cynlluniau adfer er gwaethaf bylchau yn y gweithlu, ac er bod trefniadau cyffredinol ar waith ar gyfer dal a nodi risgiau ar y dechrau, roedd bylchau yn gysylltiedig â risgiau staff a gwasanaethau, ac asesiadau effaith.

34 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r camau gweithredu yn ei chynllun adfer, gan gynnwys y gwaith i danategu ei rhaglen trawsnewid sgrinio llygaid diabetig. Mae lefelau gweithgarwch hefyd wedi cynyddu, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi gallu dileu'r ôl-groniad ar gyfer ei rhaglen sgrinio AAA. Fodd bynnag, mae adfer rhaglen sgrinio'r fron yn parhau i fod yn heriol oherwydd bylchau yn y gweithlu, ac mae lleihau'r ôl-groniad ar gyfer y rhaglen sgrinio llygaid diabetig yn dibynnu ar newidiadau yn y llwybr ac agor yr ail ganolfan yn haf 2023. Serch hynny, mae ôl-groniadau ar gyfer y ddwy raglen yn lleihau'n gyson, ac mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i flaenoriaethu carfannau sgrinio yn ôl risg.

35 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gweithredol da i fonitro perfformiad sgrinio ac adfer. Er bod goruchwyliaeth ar lefel Bwrdd a phwyllgor, gallai gwybodaeth gliriach am berfformiad, adfer a rheoli risg gefnogi gwaith craffu a sicrwydd mwy effeithiol.

## Adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu'r GIG

36 Ym mis Medi 2023, cyhoeddais adroddiad briffio ar ddata sy'n nodi data allweddol ynghylch gweithlu GIG Cymru. Amlygodd fy adroddiad briffio dwf parhaus GIG Cymru, ac roedd yn myfyrio, mewn rhai achosion, nad yw'r twf yn lefelau staff, yn enwedig mewn nyrsio a rhai arbenigeddau meddygol wedi dal i fyny â'r galw cynyddol.

37 Mae'n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith ar staff ac mae'r gweithlu'n parhau dan bwysau sylweddol. Mae'r tueddiadau allweddol diweddar yn dangos mwy o drosiant staff, absenoldeb oherwydd salwch a swyddi gwag. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar staffio asiantaethau allanol ac yn benodol costau asiantaeth uwch, hyd at £325 miliwn yn 2022-23. Mae Cymru'n tyfu ei gweithlu ei hun, gyda mwy o nyrsys a meddygon yn hyfforddi.

38 Er gwaethaf hyn, mae dibyniaeth drom o hyd ar staff meddygol o'r tu allan i Gymru, gan ddangos bod angen i sicrhau bod comisiynu addysg yn cyd-fynd â'r galw, ond hefyd y gall cyrff iechyd recriwtio graddedigion digonol ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos bod y GIG yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.

## Trefniadau cynllunio'r gweithlu

39 Archwiliodd fy adolygiad pa un a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu. Roedd yn canolbwyntio ar gynllunio strategol a gweithredol y gweithlu, sut mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut mae'n gweithio gyda'i randdeiliaid i ddatblygu atebion. Roedd y gwaith hefyd yn ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i nodi a mynd i'r afael â heriau allweddol y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hir a sut mae'n monitro i weld a yw ei ddull yn gwneud gwahaniaeth.

40 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth yng nghamau cynnar gwella ei dull strategol o gynllunio'r gweithlu a rhaid iddi nawr ganolbwyntio ar wella gwybodaeth am ei gweithlu a deall effaith mentrau'r gweithlu.

41 Her allweddol y gweithlu i'r Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod ganddi gapasiti staff i gyflawni ei blaenoriaethau strategol. Mae dangosyddion gweithlu yn dangos mai trosiant blynyddol staff yn 2021-22 oedd un o'r uchaf o holl gyrff GIG Cymru. Roedd bron i chwarter trosiant staff o ganlyniad i ddyrchafiad staff. Yn 2022-23, cyfanswm costau cyflog yr Ymddiriedolaeth oedd £129 miliwn, sy'n gynnydd o 65% yn y pum mlynedd ers 2017-18. Mae ffigurau absenoldeb oherwydd salwch yr Ymddiriedolaeth ymhlith yr isaf yn GIG Cymru, ond ar 4%, ni lwyddodd i gyrraedd ei tharged o 3.24% yn 2021-22.

42 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull effeithiol o gynllunio'r gweithlu eto ond mae'n gwneud cynnydd da o ran gwella ei dealltwriaeth o'r capasiti presennol i ddarparu sylfeini ei dull strategol. Mae ganddi Strategaeth Pobl y cytunwyd arni sy'n canolbwyntio ar wella dull cynllunio'r gweithlu ond nid oes ganddi wybodaeth glir ynghylch a oes ganddi'r capasiti a'r gallu i'w gyflawni. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gwneud cynnydd da yn datblygu gwybodaeth am y gweithlu ond mae'n rhaid iddi sicrhau cywirdeb ei gwybodaeth a datblygu ei rhagolwg o'r galw am wasanaethau yn y dyfodol i bennu capasiti angenrheidiol y gweithlu. Wrth symud ymlaen, mae angen i'r Ymddiriedolaeth adeiladu ar ei gwybodaeth am y gweithlu i ddatblygu dull cydlynol o nodi a rheoli risgiau i'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol. Cafodd datblygiad y Strategaeth Pobl a mentrau gweithlu unigol ei lywio gan ymgysylltiad da â rhanddeiliaid, ond mae cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth ymestyn cyrhaeddiad ei hymgysylltiad er mwyn deall anghenion staff mewn gwasanaethau rheng flaen yn well.

43 Yn gyffredinol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi risgiau'r gweithlu i gyflawni ei blaenoriaethau strategol yn ei chofrestrau risg corfforaethol a strategol, ond nid oes ganddi ddarlun clir o'r rhwystrau a'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig â gweithredu ei Strategaeth Pobl, gan gynnwys costau cyflawni dynol ac ariannol. Wrth symud ymlaen, mae pecyn cymorth y gweithlu yn darparu sylfaen dda i ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o risg ar draws y sefydliad. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu i reoli heriau'r gweithlu, gan gynnwys atebion unigol i bwysau staffio, defnyddio'r gweithlu yn wahanol, gweithio gyda phartneriaid, a thrwy becyn o fentrau mwy i gefnogi llesiant, dysgu a datblygu, recriwtio a chadw. Gallai'r Ymddiriedolaeth dargedu ei gweithgareddau

yn well gyda dealltwriaeth gliriach ynghylch pa un a all staff gael mynediad at ei mentrau mewn meysydd lle mae cadw ac absenoldeb oherwydd salwch yn broblem.

44 Mae gwendidau yn nhrefniadau'r Ymddiriedolaeth i oruchwylio perfformiad y gweithlu a rhaid iddi wneud mwy i ddeall effaith ei hymdrechion i fynd i'r afael â'i risgiau i'r gweithlu. Mae'n adrodd am gynnydd wrth gyflawni cerrig milltir y gweithlu yn y cynllunio tymor canolig integredig ond nid oes ganddi wybodaeth glir eto am ganlyniadau'r gwaith, nac effaith y camau gweithredu a'r mentrau yn enwedig ym meysydd absenoldeb oherwydd salwch a chadw staff. Mae angen i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD) gael gwell golwg ar yr effaith y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei chael ar ei hymdrech i fynd i'r afael â risgiau'r gweithlu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio meincnodi i ysgogi gwelliant ond gallai fod yn fwy effeithiol yn ei dull gweithredu drwy nodi cymaryddion allanol perthnasol i ddeall gwahaniaethau sylweddol mewn perfformiad a chyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

## Asesiad strwythuredig

45 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i waddol pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roeddent hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio.

46 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol ar gyfer cynllunio; a dull corfforaethol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd

47 Roedd fy ngwaith yn ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fe wnes i roi sylw arbennig i'r canlynol:

- tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd;
- trefniadau i gefnogi rheolaeth busnes y Bwrdd;
- strwythur y bwrdd a'r pwyllgor, busnes, cyfarfodydd a llif sicrwydd;
- ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill; a
- sgiliau'r bwrdd, profiadau, cydlyniant ac ymrwymiad i wella.

48 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithio'n dda, ac yn canolbwyntio'n dda ar dryloywder cyhoeddus, clywed oddi wrth staff a defnyddwyr gwasanaethau, a gwelliant parhaus. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol ac mae newidiadau mewn aelodaeth wedi eu rheoli'n dda, er bod bwlch wedi cyflwyno her. Yn gyffredinol, mae ansawdd papurau o safon dda gyda chamau priodol yn cael eu cymryd i wella hyn ymhellach. Mae cyfleoedd yn bodoli i ystyried amseru cyfarfodydd pwyllgorau.

49 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus. Mae'r gwaith o sicrhau bod papurau pwyllgor ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd wedi gwella, ac eithrio'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei drin fel cyfarfod preifat. Mae trefniadau da i gefnogi rheolaeth busnes Bwrdd a phwyllgor effeithiol, gyda gwaith sylweddol ar y gweill i sicrhau bod yr holl bolisïau'n cael eu diweddaru a'u bod yn hygyrch.

50 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i weithio'n dda, a gwelwyd lefelau da o graffu, cefnogaeth a her. Mae llif clir o wybodaeth yn parhau ar draws pwyllgorau ac i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae lle i'r Ymddiriedolaeth ystyried amseriad ei chyfarfodydd pwyllgor er mwyn sicrhau goruchwyliaeth fwy rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ar draws busnes y Bwrdd a'r pwyllgor. Yn gyffredinol, mae papurau o safon dda gyda defnydd da o offer rhyngweithiol. Ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen gwelliannau o ran papurau'r pwyllgor a'i bod yn cymryd camau priodol, gyda chynllun treialu ar y gweill ar hyn o bryd.

51 Mae'r Bwrdd wedi cryfhau ei ymrwymiad i glywed oddi wrth staff a defnyddwyr gwasanaeth, gyda chynlluniau i wella trefniadau ymhellach, gydag ailgyflwyno troeon gan y Bwrdd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol, gyda phwyslais cryf ar ddod yn Fwrdd sy'n perfformio'n uchel. Pan fu newidiadau yn aelodaeth y Bwrdd, cafodd y rhain eu rheoli'n dda. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi bod â swydd wag Cyfarwyddwr Anweithredol ers sawl mis, sydd wedi rhoi pwysau ar gynnal cworwm.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

52 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull gweithredu corfforaethol cadarn i reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer y canlynol:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau;
- tracio argymhellion

53 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a llywodraethu ansawdd. Mae dull yr Ymddiriedolaeth o nodi risgiau strategol yn gwella, ac mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach wedi'i grynhoi'n un ddogfen. Fodd bynnag, mae angen gwaith

pellach ar drefniadau ar gyfer rheoli risgiau strategol a chorfforaethol, a thracio argymhellion.

54 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull o reoli risg ac wedi adnewyddu ei risgiau strategol yn gynharach yn y flwyddyn. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'n glir drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ac mae Cofrestr Risg Strategol wedi'i hadnewyddu wedi'i datblygu. Mae'r risgiau corfforaethol yn cael eu diweddaru ond nid yw'r Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei hystyried gan y Bwrdd na'i bwyllgorau ers dechrau'r flwyddyn ariannol. Nid yw amlder goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol ar y lefel a welwn mewn cyrff eraill y GIG, ac mae angen gwella ffynonellau sicrwydd ar gyfer y risgiau strategol. Mae capasiti o fewn y tîm risg yn cyflwyno her i weithredu Cynllun Datblygu Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth.

55 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â goruchwyliaeth gorfforaethol, goruchwyliaeth Bwrdd a gwaith chraffu ar berfformiad da, gyda threfniadau'n gwella'n barhaus trwy ddatblygiadau i'w Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad ac adrodd ategol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i fod â threfniadau llywodraethu ansawdd priodol ar waith ac mae wedi mabwysiadu dull cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd o ran ansawdd a gonestrwydd. Mae angen gwella trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer tracio argymhellion er mwyn sicrhau trosolwg rheolaidd a chynhwysfawr o'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

## Dull gweithredu corfforaethol o ran cynllunio

56 Roedd fy ngwaith yn ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

57 Canfu fy ngwaith fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o ddatblygu a monitro ei strategaethau a'i chynlluniau, gyda strategaeth hirdymor newydd ar waith a dull cryfach o ddangos effaith.

58 Cymeradwyodd y Bwrdd ei strategaeth 12 mlynedd newydd ym mis Mawrth 2023, yn dilyn gweithdai'r Bwrdd ac ymgysylltiad mewnol ac allanol sylweddol. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac felly'r blaenoriaethau strategol yw amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth hefyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu Strategaeth Ddigidol a Data 12 mlynedd, Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso tair blynedd, ac mae wedi adnewyddu ei Strategaeth Iechyd Rhyngwladol deng mlynedd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn o hyd ar gyfer datblygu a chynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) cymeradwy.

59 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei phwyslais ar effaith trwy gynnwys canlyniadau clir yn ei IMTP a sut y bydd y rhain yn cael eu mesur. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer monitro a chraffu ar gyflawni ei IMTP drwy ei threfniadau adrodd perfformiad i'r Bwrdd. Mae gwaith monitro strategaethau yn cael ei gynnal drwy bwyllgorau.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

60 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

61 Canfu fy ngwaith fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol yn gyffredinol.

62 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol i fantoli’r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, gyda gwarged bach o £85,000 a £35,000, yn y drefn honno. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ei dyletswyddau ariannol ar gyfer y cyfnod treigl tair blynedd 2020-23, gyda gwarged cronnus o £260,000. Mae ar y trywydd iawn i’w cyflawni eto yn 2023-24.

63 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o gynllunio ariannol, gyda chynllun ariannol clir a chytbwys ar gyfer 2023-2026 yn sail i'w IMTP. Mae'r cynllun yn nodi'n glir ei dull gweithredu i sicrhau arbedion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â rheolaethau a rheolaeth ariannol dda ar waith gyda goruchwyliaeth briodol yn cael ei chynnal drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i fod â threfniadau da i fonitro ac adrodd ar ei sefyllfa ariannol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2023.

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Barn ar y datganiadau ariannol | Gorffennaf 2023 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Trefniant Adfer Sgrinio | Medi 2023 |
| Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG | Medi 2023 |
| Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu | Hydref 2023 |
| Asesiad Strwythuredig 2023 | Ionawr 2024 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2023 | Mawrth 2023 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2023 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau'r sector cyhoeddus

cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Effeithlonrwydd Ariannol | Mawrth 2024 |
| Adolygiad o’r gwaith Pennu Amcanion Llesiant | Ebrill 2024 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2023 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £184,576 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail fod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yn unol â'r ffi a amlinellir yn y Cynllun.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Mae fy Nghynllun Archwilio 2023 yn nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol. [ISA 240.31-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Gwaith archwilio wedi'i gynllunio wedi'i gwblhau ac nid oes unrhyw faterion yn codi. |
| Mae gan Ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld sefyllfa adennill costau ar gyfer diwedd y flwyddyn, mae'r ddyletswydd hon yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheoli a | Byddwn yn canolbwyntio ein profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai fod â thuedd wrth adrodd. | Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyletswydd adennill ei hun - dim problemau'n codi. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| gynhwysir yn y datganiadau ariannol fodd â thuedd mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn methu o ran y ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n amlygu'r methiant. | | |
| Mae safon cyfrifyddu newydd IFRS16 ar gyfer lesoedd wedi'i mabwysiadu gan y FReM ar gyfer 2022-23.<br>Bydd IFRS16 yn newid yn sylweddol sut y cyfrifir am y rhan fwyaf o asedau les gan y bydd angen cydnabod asedau les fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.<br>Mae yna hefyd ofynion datgelu ychwanegol sylweddol sy'n benodol i asedau les y bydd angen eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• ystyried cyflawnrwydd portffolios lesoedd a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth y mae angen eu cynnwys yng nghyfrifiadau IFRS16;<br>• adolygu sampl o werthoedd asedau ac atebolrwydd wedi'u cyfrifo a sicrhau bod y rhain wedi cael eu cyfrif a'u datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon; a<br>• Sicrhau bod yr holl ddatgeliadau perthnasol wedi'u gwneud. | Ni nodwyd unrhyw faterion sylweddol, er ein bod wedi nodi bod y gwariant a ddatgelir o fewn Nodyn 13.3 (Asedau Hawl Defnydd) wedi'i danddatgan a chywirwyd hyn yn y cyfrifon ardystiedig terfynol. |
| Bu sawl newid yn ystod y flwyddyn i Uwch Swyddogion a Gweithredwyr | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | O ganlyniad i'n harchwiliad, gwnaed nifer fach o addasiadau i'r Adroddiad |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Anweithredol, sy'n cynyddu'r risg o gyflawnrwydd a chywirdeb yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol. | | Cydnabyddiaeth Ariannol i adlewyrchu'n gywir ffigurau cyflog a phensiynau ar gyfer y flwyddyn bresennol a blaenorol. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.